

## PRIFYSGOL BANGOR

### PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

**Cyfarfod:** 3 Chwefror 2016

**Preseanol:** Yr Athro P Spencer (Cadeirydd), Mr S Barnard, Miss S Barnes, Mr H Ellis, Mr D Fordham, Mr W Jones, Dr J Latchford, Mrs L Meadows, Ms C Monks, Mr D Owen, Mrs E Parry Williams, Ms E Riches, Dr H Roberts, Mr S Roberts, Mr M Stanley, Mr G W Jones (Ysgrifennydd).

**Ymddiheuriadau:** Mr A Jones, yr Athro C Tully, yr Athro J Hughes, Ms F Elin, Mr D Williams, Mrs M Lake, Dr L Jones.

#### 478. COFNODION

Cymerwyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2015, wedi'u darllen, eu cadarnhau a'u llofnodi.

#### 479. MATERION YN CODI

- a) Cofnod 471 (b) Coleg Bangor, Tsiena:  
Mae Llawlyfr Coleg Bangor, Tsiena wedi'i gymeradwyo ac ar gael i staff.
- b) Cofnod 471(c) Hyfforddiant Staff:  
Cynhwysir datblygu Hyfforddiant Staff fel Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPI) o dan Eitem 3 ar yr Agenda.
- c) Cofnod 471 (d) Asesiadau Risg IaD Coleg / Adran:  
Mae'r Colegau / Adrannau i ddychwelyd eu Hasesiad Risg IaD wedi'u diweddarau fel rhan o broses Arolwg Blynyddol IaD. 7 Chwefror yw'r terfyn amser ar gyfer Dychweliadau IaD.
- d) Cofnod 472 (c) Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch:  
Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo'r datganiad polisi iechyd a diogelwch diwygiedig. Mae bellach yn disgwyl cael llofnod swyddogol yr Is-ganghellor.
- e) Cofnod 475 (i) Adroddiad Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch: Diogelwch Gyrwyr a Cherbydau:  
I'w gynnwys o dan Eitem 4 ar yr Agenda.

#### 480. DIWEDDARIAD AR REOLI IECHYD A DIOGELWCH AC ADOLYGIAD POLISI

Rhoddyd cyflwyniad byr ar y newidiadau a fydd yn deillio o'r ailfformatio ar Bolisi IaD y Brifysgol a mabwysiadu y safon newydd ar gyfer Arwain a Rheoli Iechyd a Diogelwch, a gynhrychir gan USHA/UCEA. Nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- a) Mae Polisi IaD y Brifysgol ar hyn o bryd wedi ei rannu yn ddwy ddogfen.
  - i. *Datganiad Polisi IaD*, a gymeradwywyd eisoes gan y cyngor, sy'n nodi egwyddorion ac ymrwymadau iechyd a diogelwch y Brifysgol.

- ii. *Trefniadau IaD* (wrthi'n cael ei datblygu) yn nodi sut y cyflawnir iechyd a diogelwch.
- b) Roedd y *Trefniadau IaD* yn alinio adran Trefniadau Polisi IaD presennol y Brifysgol gyda Chanllawiau USHA/UCEA a bydd yn nodi'r rolau a'r cyfrifoldebau yn eglur. Rhagwelir na fydd unrhyw gyfrifoldebau newydd yn cael eu creu o ganlyniad.
- c) Mae *Datganiad Polisi IaD* a *Threfniadau IaD* yn galluogi i'r Brifysgol ddangos tystiolaeth ei bod yn gweithio yn ôl system reoli iechyd a diogelwch gydnabyddedig. Bydd y newidiadau, sydd yn bennaf yn seiliedig ar ailfformatio'r wybodaeth bresennol yn datblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol cliriach ac yn integreiddio'r fethodoleg 'Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu'.
- d) Darperir Sesiynau Hyfforddi Ffurfiol, wedi'u datblygu ar sail y dogfennau diwygiedig, i'r sawl sydd â chyfrifoldebau rheoli allweddol.
- e) Rhagwelir y bydd y meincodi yn y dyfodol ar system rheoli iechyd a diogelwch y Brifysgol yn symlach gan y gall y Brifysgol gymharu â Chanllawiau UCEA, sydd yn eu tro wedi'u mapio ar y Safon Prydeinig newydd.
- f) Arweinir Rhaglen Archwilio IGC y dyfodol gan y wybodaeth a roddir yn Ymatebion IaD Blynyddol pob Coleg / Adran a'r Trosolwg Asesiad Risg cysylltiedig.
- g) Bydd angen diweddarau Canllawiau'r Cyngor a'r Canllawiau Deoniaid Colegau / Penaethiaid Adrannau gyda bydd y ddwy ddogfen ddiwygiedig, *Datganiad Polisi IaD* a *Threfniadau IaD*, wedi'u cymeradwyo ac yn eu lle.

#### 481. **ADRODDIADAU'R ARCHWILIAD: Arolwg Diogelwch Gyrwyr a Cherbydau**

Nododd Adolygiad y Colegau / Adrannau ar y trefniadau i sicrhau cydymffurfio a'r Polisi Diogelwch Gyrwyr a Cherbydau fod yn y Brifysgol drwyddi 5 Ysgol a 6 Adran sy'n rhedeg 45 o gerbydau maent yn berchen arnynt / dan les.

Amlygodd yr Adolygiad nifer o feysydd oedd angen eu gwella, gan gynnwys:

- a) Systemau cadarnach i asesu Trwyddedau Gyrwyr bob blwyddyn, fel bo'r Gofynion Yswiriant yn mynnu.
- b) Roedd angen gwella systemau rhai adrannau i sicrhau bod cerbydau yn cael eu harchwilio'n rheolaidd i sicrhau eu diogelwch ar gyfer y ffordd.
- c) Dylai symleiddio trefniadau'r Brifysgol i sicrhau bod cerbydau wedi'u trethu ac wedi cael Tystysgrifau MOT.

Cafwyd trafodaeth yn dilyn hyn.

Cytunodd y Pwyllgor ar yr Adroddiad a nodwyd bod angen i'r Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch ystyried camau cysylltiedig ymhellach.

**482. ADRODDIADAU IS-BWYLLGOR:**

**482 (a) Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Ymbelydredd**

Cyfarfu'r Is-bwyllgor ar 21 Ionawr 2014 a nodwyd yr eitemau allweddol isod:

- a) *Radon*: Adolygir canlyniadau yr holl Arolygon Radon yn 2016, a defnyddir mesuryddion radon i ganfod lefelau radon gweddilliol yn y manau hynny y nodwyd o'r blaen eu bod yn agos at y Lefelau Gweithredu.
- b) *Defnydd Gwyddonol ar Ffynonellau Ymbelydredd*: Mae'n ofynnol ar y Brifysgol yn gyfreithiol i gadw cofnodion manwl o'r holl waith sydd a wnelo ag ymbelydredd, o ran ffynonellau, stoc, defnydd a gwastraff.

Er bod y gronfa ddata isotopau, gyda chofnodion sydd ar systemau eraill wedi ychwanegu ati yn cyd-fynd a'r gofynion statudol, mae'r gronfa ddata isotopau yn dal yn broblemus ac nid yw'n opsiwn hyfyw yn y tymor hir.

Mae gwaith ar y gweill i ddod o hyd i ffordd ymlaen i wella'r rheoli ar gofnodion stoc/gwastraff ymbelydrol.

- c) *Arolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwrth Derfysgaeth Cymru*: Aeth yr arolygiad yn dda gyda sgôr o '0', sy'n golygu na nodwyd torri unrhyw reolau ac na fydd dim camau pellach.
- d) *Trwyddedau'r Brifysgol*: Oherwydd trosglwyddo'r cyfrifoldebau o Asiantaeth yr Amgylchedd i Gyfoeth Naturiol Cymru, mae angen adolygu Trwyddedau Stoc a Gwastraff y Brifysgol.

**482 (b) Adroddiad yr Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Cemegol a Biolegol**

Cyfarfu'r Is-bwyllgor ar 21 Ionawr 2016. Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- a) *Arolygu Iechyd yn y Brifysgol*: Mae adolygiad o arolygu iechyd ar y gweill ar hyn o bryd, gyda'r bwriad o symleiddio a mesur yr anghenion arolygu iechyd.
- b) *Damweiniau a Dignyddiadau*: Nodwyd na fu unrhyw ddigwyddiadau llygaid a chemegion yn 2015, ond y bu cynnydd mewn digwyddiadau gyda Gwydrau Winchester yn cynnwys cemegion gwastraff.
- c) *Gwaith gydag Organebau a Addasnyd yn Enetig*: Mae gwaith ymchwil, yn defnyddio organeb Grŵp Perygl 3 (HG3) i ymchwilio i ffyrdd i reoli malaria i gychwyn yn 2016.
- d) *Archwiliad Blyneddol o'r Cyfleusterau Bioberyl*: Cynhaliwyd arolygiad blyneddol o'r cyfleusterau HG2 yn Ionawr 2016. Roedd y canfyddiadau yn gadarnhaol ac roedd yn amlwg fod gan yr holl staff a myfyrwyr sy'n gweithio yn y meysydd ddealltwriaeth dda o'r risgiau a'r gofynion rheoli cysylltiedig.

**483. ADRODDIAD GAN GRŴP TASG Y PWYLLGOR GWEITHREDU  
DIOGELWCH**

Ers y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch mae'r Grŵp Tasg wedi cyfarfod un waith. Yn y cyfarfod hwnnw ystyriwyd y mecanweithiau ar gyfer rhoi gwybodaeth i deithwyr tramor, gan gynnwys materion Yswiriant, mynediad at y wefan a'i chynnwys, rheoliadau ariannol a gofynion iechyd cyn teithio a rheoli'r risgiau cysylltiedig. Nodwyd:

- a) Roedd 1500 o achlysuron 'wedi'u cofnodi' lle oedd staff a myfyrwyr wedi teithio dramor ar fusnes y Brifysgol yn y cyfnod 12 mis diweddaraf (Rhagfyr 2014 - Tachwedd 2015). Roedd 766 o blith y rhain i lefydd y tu allan i'r UE.

- b) Y cyrchfannau mwyaf y tu allan i'r UE oedd UDA, Canada, Tsiena, Ghana, De Affrica, India, Singapore, Tanzania ac Israel.
- c) Y coleg oedd a'r rhan fwyaf o yswiriant teithio dramor oedd y Gwyddorau Naturiol, gyda 365 o deithiau y tu allan i'r UE, ac yna'r Coleg Busnes, y Gyfraith, Addysg a'r Gwyddorau Cymdeithasol, oedd a chofnod o 90 o deithiau y tu allan i'r UE.
- d) Yr Adrannau Gwasanaethau oedd a'r mwyaf o deithiau (i gyrchfannau y tu allan i'r UE) oedd IEC gyda 60; Y Gofrestrfa Academaidd (yn cynnwys Sicrhau Ansawdd), 27; a Datblygu ac Alwmi, 6.

Barn y Grŵp Tasg oedd fod y Ffurflen Yswiriant Teithio dramor bresennol a'r wybodaeth sydd gyda hi a'r Polisi Teithio Dramor yn sail dda ac yn fecanwaith priodol ar gyfer asesu risg a rheoli teithio dramor ar fusnes y Brifysgol.

Bydd a wnelo camau pellach â:

- e) Gwelliannau o ran cysylltu pryniannau teithio a'r Ffurflen Yswiriant.
- f) Eglurder fod rhaid llenwi Ffurflen Yswiriant Prifysgol Bangor, hyd yn oed os trefnir y teithio gan drydydd parti, pan fydd unigolion yn teithio fel cynrychiolwyr Prifysgol Bangor.
- g) Hyrwyddo pellach ar yswiriant teithio a gofynion asesu risgiau.

#### **484. ADRODDIAD AR FATERION YSTADAU**

Codwyd yr eitemau allweddol isod:

- i. Mae cyllideb yr Ystadau wedi ei lleihau ar gyfer blwyddyn ariannol 2015 - 2016. O ganlyniad, mae Manyleb o waith cynnal a chadw sydd â blaenoriaeth wedi ei pharatoi, gyda chamau lliniarol ynnddi i reoli risgiau neilltuol.
- ii. Mae'r Fanyleb ddiwygiedig yn canolbwyntio ar feysydd lle mae iechyd a diogelwch, cydymffurfio cyfreithiol a boddhad myfyrwyr yn hanfodol.
- iii. Bydd Grŵp Tasg Ystadau a Chyllid yn cymeradwyo'r Fanyleb yn ffurfiol.
- iv. Mae'r tywydd garw wedi cael effaith sylweddol ar draws ystâd y Brifysgol a chafwyd difrod mawr i'r to yng Nghanolfan Brailsford ac Adeilad Wheldon.

#### **485. ADRODDIAD GAN UNDEB Y MYFYRWYR**

Adroddwyd bod:

- i. Yr undeb wedi adleoli i Pontio, gyda pheth o'r gwaith yn mynd rhagddo o hyd.
- ii. Ar hyn o bryd mae 35 o Brojectau Gwirfoddolwyr a 170 o Glybiau a Chymdeithasau gwahanol, ac mae'r Undeb yn gyfrifol am reoli iechyd a diogelwch y cyfan.
- iii. Roedd hyfforddiant myfyrwyr yn cynnwys Hyfforddiant Arweinwyr i'r rhai sy'n gyfrifol am weithgareddau grwpiau a Hyfforddi Proffesiynol, project ar y cyd rhwng Undeb y Myfyrwyr a Chanolfan Brailsford.
- iv. Mae'r broses yn mynd rhagddi o gyflwyno system cronfa ddata electronig i gadw cofnodion (e.e. cynnal a chadw offer, hyfforddi) a dangos pa gamau sydd heb eu cymryd, a hynny drwy Undeb y Myfyrwyr, gan gynnwys Clybiau a Chymdeithasau.

- v. Mae rhaglen monitro IaD i Glybiau a Chymdeithasau wedi ei sefydlu. Bydd y broses hon yn galluogi targedu cefnogaeth i Glybiau a Chymdeithasau, fel bo'n briodol.

Diolchwyd i'r Adran Ystadau am y gefnogaeth wrth ddod o hyd i nifer o gyfleusterau ar draws y Brifysgol ar gyfer eu defnyddio gan Glybiau a Chymdeithasau.

**486. EITEMAU GAN AELODAU'R PWYLLGOR**

Dim.

**487. UNRHYW FATER ARALL**

Dim.